# Pennu a chytuno ar gynllun gofal carnau ar gyfer y ceffyl

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn cynnwys sut i bennu a chytuno ar gynllun gofal carnau ar gyfer y ceffyl gyda’r person cyfrifol. Mae cynllun gofal carnau yn hanfodol i gysur, lefel gweithgaredd a lles y ceffyl.

Er mwyn pennu’r cynllun gofal carnau ar gyfer y ceffyl, bydd angen i chi fynd at y ceffyl a’i drin mewn ffordd sydd yn lleihau straen a braw, gan weithio mewn safle sydd yn ddiogel i’r ceffyl ac unrhyw un sydd yn gysylltiedig â’r gwaith, yn cynnwys chi eich hun.

Bydd angen i chi baratoi’r carn er mwyn gallu ei archwilio. Byddwch yn gallu archwilio’r carn a phennu anghenion gofal carn amrywiaeth o geffylau. Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o anafiadau a chyflyrau iechyd sydd yn gyffredin i geffylau a phryd i gynnwys llawfeddyg milfeddygol.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o’ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni’r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu eich dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid, codau ymarfer a pholisïau’r busnes.

Gall y person cyfrifol fod yn unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros y ceffyl fel y perchennog, hyfforddwr, gwas stabl neu ymarferydd gofal carnau.

Mae’r safon hon ar gyfer ymarferwyr Gofal Carnau Ceffylau y DU.

Pennu a chytuno ar gynllun gofal carnau ar gyfer y ceffyl

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*